

POLISI LWFANSAU AELODAU CYNGOR CYMUNED Y FALI

Adolygwyd gan y Pwyllgor Cyllid 30.6.21 Mabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn 21 Gorffennaf 2021

CYFLWYNIAD

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gan unigolion sydd wedi derbyn swydd fel aelod o gyngor cymuned neu dref yr hawl i dderbyn taliadau fel a benderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhai swyddogaethau penodol i aelodau, yn enwedig o fewn y cynghorau cymuned a thref mwyaf yn golygu mwy o gyfrifoldeb. Mae pob cyngor felly wedi cael ei gategoreiddio yn ddibynnol ar ei incwm neu ei wariant.

Mae Cyngor Cymuned y Fali yn Gyngor Band B – Incwm a Gwariant o £30,000 i £199,000.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi:

- a) Trosolwg o'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yng Nghymru mewn perthynas â thaliadau i'w gwneud gan Gyngor Band B.
- b) Datganiad o Bolisi Cyngor Cymuned y Fali mewn perthynas â gweithredu taliadau aelodau.

PENDERFYNIAD RHIF

40 – Mae'n ofynnol i bob cyngor cymuned a thref i wneud taliad o £150 y flwyddyn i bob un o'i aelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau.

42 – Gall cynghorau cymuned a thref yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad o hyd at £500 yr un i hyd at 5 o aelodau fel cydnabyddiaeth am gyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau.

Mae gwneud y taliad o £500 yn opsiynol.

PENDERFYNIAD CYNGOR CYMUNED Y FALI

Fe delir y £150 i bob aelod oni bai eu bod yn rhoi gwybod i'r clerch yn ysgrifenedig nad ydynt yn fodlon ei dderbyn.

Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno gwneud taliadau ychwanegol ar gyfer Uwch Swyddogaethau fel a ganlyn:-

| | |
|--|------|
| Cadeirydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid | £500 |
| Cadeirydd Parc Mwd | £250 |
| Cadeirydd Pwyllgor Ynys Wen | £150 |
| Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Gynradd y Fali | £200 |

(Byddai angen diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid i adlewyrchu hyn)

| | |
|--|---|
| | <p>Bydd y Cyngor Cymuned yn digolledu aelodau mewn perthynas â chostau teithio ar gyfer dyletswyddau y tu allan i ffiniau'r cyngor cymuned trwy gytundeb ymlaen llaw. Bydd y costau hyn yn seiliedig ar y gost wirioneddol o ddefnyddio cludiant cyhoeddus neu lwfans milltired HMRC.</p> <p>Yn ychwanegol os ydy aelod wedi bod ar waith swyddogol ac wedi dibynnu ar berson arall i'w ddreifio (sydd ddim yn aelod o'r Cyngor Cymuned) yna gall yr aelod hawlio milltired yn ôl y gyfradd â benodir ynghyd ag unrhyw gostau parcio neu dollau, cyn belled â bod y Cyngor yn fodlon bod yr aelod wedi achosi'r costau.</p> |
| <p>44 – Os bydd cyngor cymuned neu dref yn penderfynu bod dyletswydd benodol yn gofyn am aros dros nos yna gall awdurdodi i ddigolledu costau cynhaliaeth i'w aelodau.</p> <p>Mae talu costau cynhaliaeth dros nos yn opsiynol.</p> | <p>Mae'r angen i orfod aros dros nos yn annhebygol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ystyried talu costau cynhaliaeth dros nos petai'r angen yn codi.</p> |
| <p>45. Gall cynghorau cymuned a thref dalu iawndal colled ariannol i bob un o'i aelodau, pan fydd colled o'r fath wedi digwydd, ar gyfer mynychu dyletswyddau a gytunwyd.</p> <p>a) Hyd at £54.00 ar gyfer pob cyfnod heb fod yn fwy na 4 awr. b) Hyd at £108.00 ar gyfer pob cyfnod dros 4 awr ond heb fynd tu hwnt i 24 awr.</p> | <p>Mae'r Cyngor Cymuned wedi dewis talu iawndal colled ariannol i'w aelodau.</p> |
| <p>46 Rhaid i bob cyngor cymuned a thref ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (wedi ei ddarparu gan ofalwyr ffurfiol neu anffurfiol) ac am anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis.</p> | <p>Mae hwn yn daliad gorfodol. Caiff yr ad-daliad ei wneud trwy gyflwyno derbyneb gan ofalwr.</p> |
| <p>47 – Gall cynghorau cymuned a thref wneud taliad pennaeth Dinesig i'r maer/cadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £150 at gostau a threuliau a'r lwfans uwch o £500 os hawlir hwy.</p> | <p>Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno darparu'r lwfans ychwanegol hwn i'r Cadeirydd gan fod hyn eisoes wedi ei gynnwys o dan benderfyniad 42 uchod.</p> |

| | |
|--|---|
| <p>48 – Gall cyngorau cymuned a thref wneud taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i'r Dirprwy Faer/Is-Gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol i'r taliad o £150 at gostau a threuliau a'r lwfans uwch o £500 os hawlir hwy.</p> | <p>Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno darparu'r taliad ychwanegol hwn i ddirprwy gadeirydd y cyngor.</p> |
| <p>GWNEUD Y TALIADAU</p> | |
| <p>a) Mae pob aelod yn gymwys i gael y tâl o £150 fel a ddisgrifir ym Mhenderfyniad 40 o ddechrau'r flwyddyn ariannol (oni bai eu bod yn cael eu hethol yn ddiweddarach o fewn y flwyddyn ariannol). Fe wneir y taliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ym mis Chwefror.</p> <p>b) Telir y taliadau mewn perthynas â Phenderfyniadau 43, 44 a 46 pan fydd y gweithgaredd sy'n gysylltiedig â hwy wedi cymryd lle.</p> <p>c) Gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i eithrio ei hunan yn gyfangwbl neu'n rhannol o'i hawl i dderbyn unrhyw un o'r taliadau hyn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i swyddfa eiddo'r cyngor.</p> | |
| <p>GOFYNION CYHOEDDI</p> | |
| <p>Mae'n ofynnol i'r cyngor cymuned gyhoeddi manylion pob taliad a wnaed i aelodau unigol trwy Ddatganiad Taliadau blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon ar holl hysbysfyrdau'r cyngor ac/neu ar y wefan (gyda mynediad rhwydd) a'i e-bostio neu ei bostio at y Panel ddim hwyrach na'r 30ain o Fedi sy'n dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.</p> | |